

Data 2016 (Atodiad 1)

Deilliant 1: Mwy o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg

Cynyddu'r ddarpariaeth

Canran a asesir yn y Gymreg fel iaith Gyntaf ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen: 98.9%

(Nid yw' data yma'n cynnwys Hwyrddyfodiad a disgyblion Ysgolion Arbennig)

Deilliant 2: Mwy o ddysgwyr yn parhau i wella eu sgiliau iaith wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd

Canran y disgyblion Blwyddyn 9 sy'n cael eu hasesu yn y Gymraeg (iaith Gyntaf) – 83.7%

Canran y dysgwyr Blwyddyn 6 a aseswyd mewn Cymraeg (iaith gyntaf) dair blynedd yn gynharach- 99.2%

Sut mae'r ffigur hwn yn cymharu â chanran y dysgwyr Blwyddyn 6 a aseswyd mewn Cymraeg (iaith gyntaf) dair blynedd yn gynharach? Gwahaniaeth o 15.5%.

Trosglwyddo effeithiol a pharhad ieithyddol

Disgwylir i holl sefydliadau addysg y sir adlewyrchu ac atgyfnerthu'r Polisi iaith yn eu gweinyddiad, eu bywyd cymdeithasol a'u trefn fugeiliol yn ogystal ag yn eu darpariaeth gwricwlaidd.

Mae'r Polisi iaith yn rhoi pwyslais ar ddwyieithrwydd a'r angen i osod sylfeini cadarn ar gyfer y Gymraeg yn y blynyddoedd cynnar a datblygu ar hyn yn y cyfnodau allweddol sy'n dilyn.

Deilliant 3: Mwy o fyfyrwyr 14-16 oed yn astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Deilliant 4: Mwy o fyfyrwyr 16–19 oed yn astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg, mewn ysgolion, colegau a dysgu seiliedig ar waith

Cynyddu canran y myfyrwyr 14-16 sy'n astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Canran y myfyrwyr Blwyddyn 11 sy'n cael eu cofrestru ar gyfer TGAU Cymraeg iaith gyntaf sy'n astudio ar gyfer 5 neu fwy o gymwysterau pellach lefel 1 neu lefel 2 drwy gyfrwng y Gymraeg – 69.4%

Beth yw targedau'r awdurdod ar gyfer cynyddu'r ganran hon? Gellir mynegi hyn naill ai fel targedau blynyddol neu fel un targed ar ddiwedd y Cynllun.

2017: 71.2%

2018: 73.3%

2019: 74.9%

Canran y myfyrwyr Blwyddyn 11 sy'n cael eu cofrestru ar gyfer TGAU Cymraeg iaith gyntaf sy'n astudio ar gyfer 2 neu fwy o gymwysterau pellach lefel 1 neu lefel 2 drwy gyfrwng y Gymraeg – 79.4%

Targedau'r awdurdod ar gyfer cynyddu'r ganran hon:

2017: 81.2%

2018: 83%

2019: 85%

Cynyddu canran y dysgwyr 16-19 oed sy'n astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion

Beth yw canran y dysgwyr 16-19 oed sy'n astudio 2 neu fwy o bynciau drwy

a) gyfrwng y Gymraeg b) yn ddwyieithog (e.e. elfennau o gymwysterau/modiwlau)? –

Data i'w gadarnhau

Deilliant 5: Mwy o fyfyrwyr â sgiliau uwch yn y Gymraeg

Gwella darpariaeth a safonau Cymraeg iaith Gyntaf

Canran y disgyblion diwedd y Cyfnod Sylfaen sy'n cyrraedd o leiaf Deilliant 5 mewn iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg/dwyieithog – 88.7%

Canran y disgyblion diwedd Cyfnod Allweddol 2 sy'n cyrraedd o leiaf Lefel 4 ar gyfer asesiadau athro mewn Cymraeg – 89.2%

Canran y disgyblion diwedd Cyfnod Allweddol 3 sy'n cyrraedd o leiaf Lefel 5 ar gyfer asesiadau athro mewn Cymraeg – 92.3%

Beth yw canran y disgyblion diwedd Cyfnod Allweddol 4 sy'n cyrraedd graddau A*-C mewn TGAU Cymraeg iaith Gyntaf – 76.3%

Gwella darpariaeth a safonau Cymraeg ail iaith

Canran y disgyblion diwedd Cyfnod Allweddol 2 sy'n cyrraedd o leiaf Lefel 4 ar gyfer asesiadau athro mewn Cymraeg Ail iaith – 0%.

Canran y disgyblion diwedd Cyfnod Allweddol 3 sy'n cyrraedd o leiaf Lefel 5 ar gyfer asesiadau athro mewn Cymraeg Ail Iaith – 88.3%

Canran y disgyblion diwedd Cyfnod Allweddol 4 sy'n cyrraedd graddau A*-C mewn TGAU Cymraeg Ail Iaith Cwrs Llawn – 92.6%

Canran y disgyblion diwedd Cyfnod Allweddol 4 sy'n cyrraedd graddau A*-C mewn TGAU Cymraeg Ail Iaith Cwrs Byr – D/B.

Pa ganran o'r garfan sydd wedi cofrestru ar gyfer

- (i) TGAU Cymraeg Ail Iaith Cwrs Llawn – 16.7%
- (ii) TGAU Cymraeg Ail Iaith Cwrs Byr – d/b
- (iii) heb eu cofrestru ar gyfer y naill na'r llall – 2.1%

Mwy o ddysgwyr â sgiliau iaith Gymraeg lefel uwch

Cyfanswm cofrestriadau Lefel A Cymraeg iaith Gyntaf:

2015: 45

2016: 75

2017: Data ddim yn gyflawn

Cyfanswm cofrestriadau Lefel A Cymraeg ail iaith:

2015: 11

2016: 1

2017: 8

Deilliant 6: Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol cyfrwng Cymraeg

Dim data

Deilliant 7: Cynllunio'r gweithlu a datblygiad proffesiynol parhaus

Dim data